# Mesur, marcio ac asesu cyfaint coed sy’n sefyll

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â mesur ac asesu cyfaint y coed sy’n sefyll yn barod ar gyfer cynaeafu ac echdynnu. Hefyd, mae’n cynnwys dewis a marcio lleiniau enghreifftiol a marcio coed sy’n barod i’w hechdynnu.

Gellir marcio coed i ddangos bod angen eu tynnu neu i ddangos eu bod yn aros yn y tymor hwy. Mae’n rhaid bod dewis a marcio coed yn ystyried llwybrau echdynnu.

Bydd angen i chi ystyried unrhyw gyfyngiadau sy’n effeithio ar y gwaith, e.e. safleoedd dynodedig, presenoldeb strwythurau rhestredig, bywyd gwyllt, rhywogaethau estron goresgynnol neu rywogaethau gwarchodedig, ac ati.

Mae’n ofynnol i chi osgoi neu leihau difrod i, neu darfu ar, yr ardal gyfagos, gan gynnwys coed, llystyfiant arall, bywyd gwyllt a chynefinoedd, neu i unrhyw strwythurau, ffensys, llwybrau, arwyddion, ffosydd/dyfrffyrdd neu ddraeniau, ac i sicrhau nad yw eich gwaith yn peri risg i ddefnyddwyr eraill y safle.

Mae’n rhaid i’ch gwaith gydymffurfio â’r holl ddeddfwriaeth, codau ymarfer, safonau’r diwydiant a chanllawiau perthnasol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael y wybodaeth berthnasol i gyflawni’r gweithgareddau gwaith yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
2. cynnal eich iechyd a’ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch pobl eraill bob amser, yn unol â’r ddeddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol
3. asesu’r risgiau sy’n gysylltiedig â’r safle a’r gwaith sydd i’w gyflawni, cyn dechrau gweithio a thrwy gydol y gweithgaredd, gan wirio a chadarnhau canfyddiadau unrhyw asesiadau risg presennol
4. gwirio unrhyw ofynion statudol a allai fod ar waith a all atal neu osod amodau ar y gwaith i’w gyflawni
5. cadarnhau bod y cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gyfer y gwaith i’w gyflawni yn cael ei wisgo drwy’r amser
6. nodi ardal y coed sy’n sefyll fydd yn cael ei hasesu a’i marcio
7. cwblhau gweithdrefn cyn tariff i sefydlu’r cynllun samplu priodol ac, os byddwch yn teneuo, y dwysedd sy’n ofynnol
8. mesur ac asesu cyfaint y coed sy’n sefyll yn unol â’r wybodaeth a ddarparwyd a’r tariff priodol
9. cwblhau gwiriadau priodol y maes tariff i sicrhau bod gwallau’n cael eu dileu
10. marcio’r clwstwr ar gyfer cynaeafu ac echdynnu, gan gynnwys y system echdynnu
11. gwneud asesiadau parhaus o’r arwynebedd gwaelodol yn achos gwaith teneuo i sicrhau bod y cyfaint cywir yn cael ei dynnu
12. lleihau difrod i’r safle a’r ardal gyfagos, neu darfu arnynt, wrth wneud y gwaith hwn a chadarnhau bod y safle’n cael ei adael mewn cyflwr diogel a thaclus
13. cwblhau a storio’r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol a gweithdrefnau sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i nodi a chael at wybodaeth sy’n berthnasol i’r gwaith gofynnol
2. sut i nodi peryglon ac asesu’r risgiau sy’n gysylltiedig â’r safle a’r gwaith i’w wneud
3. y gweithdrefnau iechyd a diogelwch a’r Systemau Gweithio Diogel perthnasol
4. y ddeddfwriaeth a’r codau ymarfer, safonau a chanllawiau’r diwydiant, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau sefydliadol, moeseg busnes a moeseg proffesiynol presennol sy’n berthnasol i’ch maes gwaith ac y mae’n rhaid i chi gadw atynt
5. dewis, defnyddio a gofalu am gyfarpar diogelu personol (PPE)
6. technegau llywio a mapio a sut i ddefnyddio’r rhain
7. sut i nodi rhywogaethau coed sy’n sefyll
8. sut i fesur pren sy’n sefyll a beth sydd angen ei ystyried wrth asesu cyfaint coed sy’n sefyll
9. sut i ddefnyddio technegau mesur coedwig a choetir
10. gweithdrefn y tariff a sut mae’n gweithio
11. sut i ddefnyddio systemau tariff llawn a chryno
12. manylebau cynhyrchion, gan gynnwys ansawdd, yr hyd mwyaf a lleiaf, a’r diamedrau mwyaf a lleiaf
13. y cynhyrchion a’r marchnadoedd sydd ar gael
14. sut i fesur cnwd teneuo, dwysedd teneuo ac arwynebedd gwaelodol
15. pryd mae’n briodol cwympo cyfaint o goed enghreifftiol
16. y meini prawf ar gyfer penderfynu rhwng dulliau dethol dewisol a systematig
17. arwyddocâd mathau o deneuo ar ddewis a marcio, yn cwmpasu teneuo isel, rhyngol, corun a llinell
18. sut i farcio clwstwr, system echdynnu a gofynion teneuo
19. goblygiadau tirwedd, y tymor, y tywydd a rhywogaethau
20. effaith bosibl y gwaith ar y safle a’r ardal gyfagos a sut gellir lleihau’r effaith hon
21. eich cyfrifoldeb chi a chyfrifoldeb y sefydliad am amddiffyn yr amgylchedd a gweithio’n gynaliadwy
22. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer cwblhau a storio dogfennaeth

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

**Ystyriaethau wrth asesu cyfaint y coed sy’n sefyll:**

- dwysedd teneuo
- cnwd teneuo
- llain enghreifftiol
- bylchau’r rhesel
- lled y rhesel
- cynnyrch
- mat tocion
- dosbarthiad perygl difrod i goed gan wynt
- dulliau gweithio
- systemau coedwrol
- rhywogaethau’r coed
- dull echdynnu

## Geirfa

**Arwynebedd gwaelodol** coeden unigol yw arwynebedd trawstoriadol y goeden ar uchder y frest

Gallai **gwybodaeth** sy'n ofynnol i gyflawni gweithgareddau gwaith gynnwys:

- lluniadau
- cynlluniau
- amserlenni
- manylebau
- datganiadau dull
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs)
- cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- gofynion y cwsmer
- gofynion sicrhau ansawdd
- safonau'r diwydiant (e.e. Safonau Prydeinig)
- cyfarwyddiadau ar lafar neu yn ysgrifenedig
- canllawiau'r diwydiant (e.e. Llawlyfr Mesur y Comisiwn Coedwigaeth)

Mae **gweithdrefnau sefydliadol** yn cyfeirio at weithdrefnau sydd wedi'u gosod gan y sefydliad sy'n eich cyflogi neu'r sefydliad rydych chi'n gwneud y gwaith ar ei ran (y cleient neu'r cwsmer)

**Manylebau cynhyrchion** e.e. pyst ffens, polion telegraff

**System Weithio Ddiogel (SSoW)** – dyma ddull gweithio sy'n rhoi mesurau rheoli ar waith sy'n deillio o asesiad risg, er mwyn rheoli peryglon a nodwyd, a rhennir y mesurau hyn yn bedair elfen: person diogel; cyfarpar diogel; lle diogel; ac arfer diogel.

Mae **gweithdrefn y tariff** yn cynnwys y tri cham sylfaenol wrth amcangyfrif cyfaint clwstwr o goed

Mae **tariffau** yn gyfres o dablau cyfaint "lleol" wedi'u llunio ymlaen llaw

Mesur, marcio ac asesu cyfaint coed sy'n sefyll

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Ebr 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Ebr 2029 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANTw66 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Coedyddiaeth a choedwigaeth, Prysgoedio |
| **Cyfres/Set** | Gwaith coed |
| **Geiriau Allweddol** | cyfaint; coed sy'n sefyll; marcio; asesu |